
GOFOTA
FFURFAFENAU BYDOEDD ERAILL
DOES DIM ATMOSFFER AR Y RHAN FWYAF O WRTHRYCHAU YNG NGHYSAWD YR HAUL, FELLY PAN YN SEFYLL ARNYNT, MAE'R AWYR YN DYWYLL IAWN...
..YN YSTOD Y NOS...
YR HAUL
MAE'N EDRYCH YN WYN BERFFAITH YN Y GOFOD
MAE HI'N GALLU BOD YN ANODD GWELD SER GER WYNEB LLACHAR
MAE ATMOSFFER YR HAUL - Y CORONA - A LLWCH YN GWASGARU GOLAU
...AC HEFYD YN YSTOD Y DYDD!
MAE NIFER O LEUADAU, GAN GYNNWYS UN NI, YN GALLU CAEL EU GOLEUO YN Y NOS GAN OLEUNI O'R HAUL SYDD WEDI CAEL EI ADLEWYRCHU GAN BLANED.
GOLEUNI O'R HAUL
NID I RADDFA!
YR OLYGFA O'R DDAEAR
GOLEUNI O'R HAUL
GOLEUNI O'R DDAEAR
YR HAUL
SADWRN
DIONE, UN O LEUADAU SADWRN
WEDI EI OLEUO GAN SADWRN
LLUN O'R PROFYDD CASSINI
MAE RHAI LLEUADAU YN AGOS IAWN I'W PLANEDAU, FELLY MAE'R NOS YN GALLU BOD YN LLACHAR
O'R LLEUAD AMALTHEA, MAE IAU YN MESUR DROS 46 AR EI DRAWS
MAE HYNNY'N FWY NA 6000 GWAITH ARWYNEBEDD Y LLEUAD FEL MAE'N CAEL EI WELD O'R DDAEAR
(AMALTHEA YW'R LLEUAD MWYAF COCH EI LIW YNG NGHYSAWD YR HAUL)
MAE'R ATOMAU A MOLECIWLAU MEWN NWY YN GWASGARU GOLEUNI, FELLY MAE GAN BLANED GYDAG ATMOSFFER AWYR FWY GOLAU NAG UN HEB AER O'I CHWMPAS.
NID YW POB PELYDRYN O OLAU YN TEITHIO'N UNIONGYRCHOL O'R HAUL I'R WYNEB. MAE LLAWER O'R GOLAU YN CAEL EI WASGARU GAN FOLECIWLAU AER YN GYNTAF.
GOLEUNI O'R HAUL
MAE'R BROSES YMA - GWASGARU RAYLEIGH - YN FFWY EFFEITHIOL AR GYFER GOLAU LLIW GLAS NA CHOCH
GAN NAD YW GOLAU COCH YN CAEL EI WASGARU, MAE'R HAUL YN EDRYCH YN FWY MELYN I NI AR Y DDAEAR NAG Y MAE YN Y GOFOD.
MAE GWASGARU MIE HEFYD YN CREU EURGYLCH GWYN O AMGYLCH YR HAUL
DYMA PAM MAI GLAS YW'R AWYR PAN YN SEFYLL AR Y DDAEAR
MAWRTH
MAE LLWCH YN YR ATMOSFFER YN AMSUGNO AC YN GWASGARU GOLEUNI
MACHLUD AR Y BLANED MAWRTH. LLUN O BROFYDD NASA, SPIRIT
LLIW BROWN GOLAU YW'R AWYR YN BELL O'R HAUL
MAE LLWCH MAN YN YR ATMOSFFER YN GWASGARU GOLAU GLAS, AC YN AMSUGNO GOLAU COCH
MAE TAWCH A GRONYNNAU MEWN CYMYLAU HEFYD YN GWASGARU GOLAU
AWYR!
LLUN O LANIWR SOFIETAIDD VENERA 13
MAE HI'N GYMYLOG AR GWENER YN BARHAOL. MAE'R CYMYLAU YN TUEDDU I DDIM OND ADAEL GOLAU MELYN AC OREN I GYRRAEDD Y WYNEB.
MAE'N DEBYG MAI LLWYD YW LLIW Y CREIGIAU YMA.
MAE BAR LLIW AR Y GLANIWR YN DANGOS BETH YW LLIW YR AWYR AR GWENER.
LLAWER O LWCH
HYD YN OED MWY O LWCH
DYDD 1
DYDD 30
PESWCH
NASA
STORM LWCH AR Y BLANED MAWRTH
LLUN O LANIWR NASA OPPORTUNITY
MAE TAWCH YN GORCHUDDIO TITAN, SEF LLEUAD MWYAF Y BLANED SADWRN
OREN I LLIW YR AWYR AR TITAN HEFYD. DOES DIM GOBAITH GWELD YR HAUL, PLANEDAU, LLEUADAU, A SER O WYNEB Y LLEUAD.
ESA/LPL
MAE'N DEBYG MAI GLAS YW LLIW YR AWYR AR IAU A SADWRN, O LEIAF UWCHBEN Y CYMYLAU.
MAE'N BOSIB GWELD Y CYLCHOEDD YN YR AWYR AR Y BLANED SADWRN. MAENT YN YMDDANGOS FEL LLINELL DENAU WRTH Y CYHYDEDD, OND YN LLETACH YN BELLACH TUA'R DE A'R GOGLEDD.
MAE LLEWYRCH YR ARTH, NEU'R AWRORA, YN GALLU BOD YN BRESENNOL YN Y NOS AR NIFER O FYDOEDD*.
MAE'R AWRORA YN CAEL EU CREU PAN MAE IONAU AC ELECTRONAU EGNIOL YN TARO ATMOSFFER.
Y NWYON SY'N BRESENOL SY'N GYFRIFOL AM Y GWAHANOL LIWIAU.
* GWENER, MAWRTH, IAU, SADWRN, WRANWS, NEIFION, A LLEUADAU IO A GANYMED GER Y BLANED IAU.
MAE GOLEUNI GLAS O'R HAUL YN CAEL EI WASAGRU YMLAEN GAN RONYNNAU LLWCH MAWRION
DIM OND PAN MAE'R HAUL YN AGOS AT Y GORWEL Y MAE EFFAITH Y BROSES HON YN AMLWG - PAN MAE'R GOLEUNI YN PASIO DRWY MWY O'R ATMOSFFER.
LLIW GLAS AR YR AWYR YN AGOS AT YR HAUL
W, DEL!
NASA
gofota.cymru